# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 38. RHIF 1 | MEHEFIN 2016 | 50c


## *Côr y Porthmyn fydd yn cynnal Cyngerdd yn Lerpwl*



*Côr y Porthmyn, Dyffryn Clwyd a ddaw i Lerpwl i gynnal y Cyngerdd ar Fehefin 11 (gweler yr hanes ar dudalen 2)*

## *Cyflwyno Cadair i Amgueddfa Gaiman*



*Cyflwynwyd cadair y diweddar Archdderwydd a'r Prifardd Dic Jones a enillodd yn 1965 i Amgueddfa Gaiman. Gweler tudalen 8 am Bigion y mis o Ddyffryn Camwy*


**YN Y RHIFYN HWN:**

**Coffâd i Richard Alwyn Thomas, Taro Post**

**Newyddion o Bethel, Bethania, Seion, Penbedw, Manceinion.**

**Myfyrdod ar Hillsborough**


## Blynyddoedd o Gofio

### Yr Angor

Dyma rifyn cyntaf cyfrol 38. Mewn dwy flynedd byddwn yn dathlu deugain mlynedd o fywyd i'r papur bro, gorchest anhygoel. A yw Pwyllgor Gwaith yr *Angor* wedi trafod sut mae dathlu y digwyddiad haf 2018? Nid oes amser hir cyn hynny. Daw y cyfle yn y Cyfarfod Blynyddol. Croeso i chwi ystyried anfon awgrym perthnasol cyn dechrau Gorffennaf 2016 er mwyn ei drafod o ddifrif.

### Cofio Hedd Wyn

(Sadwrn a Sul, 10 Medi ym Mhenbedw) yn wir ym Mharc y dref. Sonnir am gael pabell yn ymyl y ganolfan lle y ceir bwyd a bwriedwn roddi sylw dyladwy i Hedd Wyn a phawb a gollodd ei bywydau o gapeli Cymraeg Glannau Mersi. Y mae'r rhaglen yn nwylo Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi mewn cydweithrediad gyda Cymdeithas Ffrindiau Parc Penbedw. Byddwn yn agor Cronfa haf eleni gan y bydd angen cryn dipyn o arian i weithredu y rhaglen fel y gwyddom o brofiad Gŵyl Mimosa.

Golygyddol

# ‘Cariwch feichiau eich gilydd’ –

## *gan D. Ben Rees*

Ni bu gwell cynghor na’r hyn a sgrifennodd yr Apostol Paul i ddeiliaid eglwys Galatia, ein hynafiaid ni fel Cymry, gan fod y Celtiaid wedi cartrefu yn y rhanbarth honno flynyddoedd cyn i’r cenhadon gyrraedd. Ond daeth y cenhadon ag efengyl a chyngorion doeth i’r trigolion. A dyma un ohonynt, pennawd y golofn.

Deallodd Paul ystyr cario beichiau ar gychwyn ei weinidogaeth pan estynnodd cyfeillion Eglwys Jeriwsalem ddeheulaw cymdeithas iddo ef a Barnabas fel y ddau oedd i gludo y newyddion da i ganol y byd gwareiddiedig. Mewn ymateb i’r croeso hwnnw rhoddodd Paul ei ysgwydd o dan y baich gan fod cymaint o dlodion yn eglwys Jeriwsalem. Os oedd *Koinonia* sef y gair Groeg am gwmniaeth a brawdoliaeth a chwaeroliaeth yn golygu rhywbeth, y mae’n golygu cario beichiau ein gilydd.

Felly *koinonia* yw’r gair holl bwysig, a phwyser arnom i gario beichiau ein gilydd. Golyga hyn dri pheth. Yn gyntaf ofal am ein gilydd. Dyna destun i lawenhau gan y dylid cadw hyn mewn cof wrth ymweld â’r cleifion, cysuro’r trallodus, cynorthwyo yr amddifad a’r unig. Caiff y weddw le amlwg yn y Testament Newydd (1 Timotheus 5:16) lle y ceir y cynghor ‘Dylai unrhyw wraig sy’n gredadun a chanddi weddwon yn y teulu, ofalu amdanynt’. Syniad rhyfeddol. Nid taflu y cyfrifoldeb ar y gwasanaeth cymdeithasol ond ei ysgwyddo ef yn bersonol. Yn ail gofal am y gymuned sydd yn medru bod yn ddigon gwantan heb ein cyfraniad. Yn olaf gofalu am bobl na welsom ni mohonynt erioed, ond fe wyddom fod angen gofal a chynhaliaeth arnynt. Dyna pam fod Apêl Ysbyty Shillong yn relefant i ni. Nid ydym yn adnabod neb yno, ond mae prynu cyfrol *Healer of Shillong* yn gofalu y caiff yr Ysbyty honno £10 y copi tuag at brynu offer a fydd o gymorth i’r cleifion o’r bryniau sydd gerllaw. Cariwn y baich heddiw.

## Ble’r Awn Ni Mis Mehefin

**30 Mai - 4 Mehefin**
Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnl ar dir Ysgol Uwchradd y Fflint. Dyma gyfle gwych, gwaith awr ar y mwyaf o Lerpwl, hanner awr o Cilgwri (e.e. West Kirby ac ati).

**Nos Lun, 6**
Trafodaeth ar gyfrol Esgob John Shelby Spong ar ‘*Christianity must change or die’* yng Nghanolfan y Cymry, Auckland Road, Lerpwl am 7.30 o’r gloch.

**Bore Sadwrn, 11**
Gŵyl David Roberts a’i deulu o Lanrwst i Lerpwl. Cyfarfodydd y bore o 10 i 1 o’r gloch yng Nghapel Bethel, Heathfield Road.

**Nos Sadwrn, 11**
Cyngerdd Côr y Porthmyn am 7.30. Tocyn am £7.50. I’w gynnal – Capel Elm Hall Drive.

**Bore Sul, 12**
Gwasanaeth o Ddiolchgarwch am Teulu Arglwydd Clwyd am 10.30 yng Nghapel Bethel.

**Nos Lun, 20 Mehefin**
Cyfarfyddiad o Gyn-fyfyrwyr Colegau Cymru, Cangen Lerpwl. I annerch Dr. Ruth Hussey.

Trueni fod ar yr un noson yn Llyfrgell yr Wyddgrug noson o dan ofal y bardd, Aled Lewis Evans, Wyddgrug



*Dr. Ruth Hussey*

## CORNEL Y TRYSORYDD
### MEHEFIN 2016



| | |
|---|---|
| Mr Gwilym Lewis, Wavertree ........................ | £15.00 |
| Mrs Marged Tee, Y Bala ................................ | £5.00 |
| Mr Arwel Evans, Irby .................................... | £11.00 |
| Rhodd Cymdeithas Gymraeg, Penbedw ......... | £100.00 |
| Mr Ben Hughes, Childwall ............................ | £30.00 |
| Mr a Mrs Meirion Evans, Allerton ............... | £20.00 |
| Mr a Mrs Arwel Williams, Roby .................... | £25.00 |
| Mrs Elizabeth Owen, Halewood .................... | £20.00 |
| Parch Gerallt Lloyd Evans, Bodorgan ............ | £26.00 |
| Mr E. W. Williams, Childwall ........................ | £12.00 |
| Mrs Sian Spink, Newton ................................ | £11.00 |
| Mrs Eira Pari Hughes, Porthaethwy ............... | £25.00 |
| Mrs Katherine Norton, Woolton .................... | £11.00 |
| **Cyfanswm** | **£311.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

## HANES CÔR Y PORTHMYN

Sefydlwyd Côr Y Porthmyn pum mlynedd yn ôl gan Erfyl Owen, un o deulu talentog Hafod Y Gân. Roedd angen codi arian er mwyn ehangu y Neuadd ym mhentre Rhewl ger Rhuthun. Penderfynwyd cynnal noson adloniant a gofynwyd am bobl i gynnal noson o adloniant. Gofynnwyd i’r dynion a fyddent â diddordeb a chanu mewn côr a chafwyd ymateb gwych. Daeth criw ohonom at ein gilydd a dysgwyd i ni gyfrinachau y pedwar llais.

Cafwyd noson lwyddiannus yr adeg honno a phawb wedi mwynhau, ac er mai am un noson yn unig oedd hi fod. Nid oedd modd rhwystro y brwdfrydedd. Ac ar y noson honno ganwyd Côr Y Porthmyn, sydd wedi gwneud enw da led led y Gogledd. Bwriad y côr yw creu adloniant, ond yn bwysicach fyth codi arian at achosion da fel yr elusen Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi. Diolchwn i Gwynfor Jones am rannu y stori gyda’r *Angor*..

*Ysgrif Goffa*

# RICHARD ALWYN THOMAS


**(1963-2016)**

**Mossley Hill, Lerpwl**

**Mab i Hilda a Brian Thomas oedd Alwyn a chafodd ofal arbennig ar hyd ei oes gan ei rieni a'i deulu ac aml un y daeth ef i'w adnabod ar y daith. Bu bywyd yn anodd i'w rieni ond gyda ffydd a dyfalbarhad ag adnoddau anghyffredin llwyddwyd yn rhyfeddol. Bu Alwyn yn ffodus o gael ei eni i gartref cariadus ac i ddau athro eithriadol. Gan fod ei fam yn gwbl ganolog i fywyd Ysgol Major Lester cafodd ei feithrin yno hyd ei fod yn saith oed, yna i Ysgol Watergate, cyn mynd i Ysgol Palmerston yn St. Mary's Road, Garston lle cafodd ei anwylo a lle y bu yn hapus. Nid ar chwarae bach y gellid cadw trefn arno gan fod cymaint o egni dihysbydd yn ei gyfansoddiad.**

**Dysgodd ei dad, ef a ffrind iddo, y ddawn i ddarllen ac ysgrifennu a bu hynny yn help aruthrol iddo. Darllenais ei ddyddiadur am 1993 lle y mae wedi nodi yr hyn a gofiai o ddydd i ddydd mewn manyldeb mawr, ei hoffter o fynd at mam Brian a'r teulu i Penmachno a mam Hilda a'r teulu yn Nhalsarnau. Y mae'r cofnodi yn gywir a'r enwau lleoedd yn Gymraeg a Saesneg wedi ei ysgrifennu yn ddestlus. Noda Porthmadog yn aml, Pentrefelin, a Cricieth, Maentwrog, Beddgelert, Bangor, Caernarfon. Daw ei hoffter o sglodion a sosej, o bobl, o'r rhai a fu'n gefnogol a gofalus ohono. Gwerthfawrogai ofal Wncwl Alun Roberts, Woolton a Wncwl Humphrey Wyn Jones, Allerton a Wncwl Bill McEvoy oedd yn gymydog iddo. Yr oedd Nain Talsarnau a Dwyryd (Llundain) yn eneidiau cytûn iddo, a bu dyfodiad Elusen Nugent Care yn chwyldroadol yn ei hanes. Trwy'r elusen honno y daeth ef a'i rieni i adnabod drwy ferch serchus a gofalus, Suzanne a Karen a ddaeth â gobaith i'w rieni ag yntau ar adeg anodd pan oedd heb groeso yng Nghanolfan Hyfforddi Neuadd Holt. Daeth Suzanne a Karen fel petai yn chwiorydd iddo gan fod mor ofalus hefyd o'i rieni fel ei bod hwy yn edrych arnynt fel pe baent yn ferched iddynt. Digwyddiad pwysig arall oedd sylweddoli fod Alwyn yn dioddef o awtistiaeth (autism). Fel y dywedodd golygyddol y cylchgrawn *The Economist* (16 Ebrill, 2016)**

**'Autism is a condition that defies simple generalisations. Except one: the potential of far too many autistic people is being squandered. Although around half of those with autism are of average intelligence or above, they do**



**far worse than they should at school and at work'.**

**Dyna a brofodd Alwyn fwy nag unwaith, ond derbyniodd hefyd waredigaeth pan ddaeth o dan ofal *Autism Initiatives* a thalwyd teyrnged iddo gan swyddog y mudiad yn y ddinas, Andrew Grainger.**

**Ac yna pum mlynedd yn ôl symudodd i Gateacre Rise lle bu'r staff yn ofalus iawn ohono a lle dysgodd sgiliau pwysig. Yr oedd ffôn symudol yn bwysig iddo a byddai'n cysylltu droeon y dydd gyda'i gartref hoff yn Cooper Avenue North.**

**Edrychai ymlaen i'r teithiau yng Nghymru a'i ymweliad blynyddol gyda Blackpool gan aros yng ngwesty'r Hilton. Yr oedd amser yn bwysig iddo a byddai'n gwisgo dwy watsh, un a'r bob llaw, ac yn aml watsh arall yn ei boced. Byddai yn cyfrif yr oriau a'r munudau, ac yn ei waeledd olaf yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl, gwnaeth atgoffa y ffisigwr a'r tîm fod cloc y ward dwy funud ar ei hôl hi gan ei gorfodi i roi'r cloc yn gywir, yn ei ddyddiad a'i amser er difyrwch i bawb a phob un.**

**Byr fu ei salwch. Cwynai am boen yn ei gefn ar ddiwrnod ei benblwydd yn 53 oed. Mewn tair wythnos fe'n gadawodd ac yntau a'i rieni wedi cael y dymuniad o ddod i Hosbis Marie Curie yn Woolton lle y daeth yr alwad iddo ar fore Gwener, 22 Ebrill. Bu'r arwyl ar bnawn Mercher, 4 Mai yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Allerton, ac yn absenoldeb anorfod y Gweinidog, Parch Tim Meadows, cymerais yr awenau, a chymerwyd rhan hefyd gan David Jones o'r eglwys a Dr. John G. Williams o eglwys Bethel. Chwaraewyd yr organ gan Mrs Margaret Anwyl Williams. Cynhaliwyd gwasanaeth ym mynwent Allerton.**

***D. Ben Rees***

# Dathlu Hanner Can Mlynedd

Yng Nghymdeithasfa Gogledd Cymru o Eglwys Bresbyteraidd Cymru a gynhaliwyd yn Llanrug ar 13 Ebrill estynnwyd llongyfarchiadau i nifer o arweinwyr capeli led led y Gogledd am ei gwasanaeth clodwiw am hanner can mlynedd. Cofiwyd am ddau a etholwyd yn Lerpwl yn 1966.

Un o blant Lerpwl yw John Medwyn, Bae Colwyn, ac yn Eglwys y Drindod, Princes Road y cafodd ef ei ethol. Ar ôl uno tair o eglwysi De Lerpwl yn 1975 ar safle Heathfield Road daeth ef yn flaenor i'r eglwys unedig hyd ei symudiad i Gymru.

Daw Mr. Glyn Davies, Rhuthun o Gorwen yn enedigol, ac etholwyd ef yn flaenor i gynulleidfa eglwys Heathfield Road lle y bu yn hynod o weithgar, a bu ef a John Medwyn Jones yn cyd-weithio am rai blynyddoedd o fewn eglwys Bethel.

Diolchir i'r ddau ohonynt am ddal cysylltiad agos a ni ar hyd y blynyddoedd a dymunir yn dda iddynt i'r dyfodol.



*John Medwyn Jones*

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

***Grym yr Atgyfodiad*** – Ar Nos Lun 4 Ebrill cynhaliwyd o dan gyfarwyddyd y Gweinidog astudiaeth o'r Atgyfodiad a'i ystyr i'r Ffydd Gristnogol. Dechreuwyd drwy ddarllen ar y cyd Luc 24. 10.12 a'i ddilyn gyda'r gweinidog yn darllen darn ar Mair Magdala o'i lyfr *Defosiwn Gŵyl y Pasg* ac wedyn gweddi. Esboniodd Dr Rees fod y pedwar efengylydd wedi darlunio'r Pasg mewn ffordd wahanol: Marc yn dangos aberth Iesu ar y groes fel gweithred sy'n achub dyn o dywyllwch a phechod; Mathew yn dangos y groes fel rhan o ogoniant teyrnas Dduw; Luc yn dilyn hanesion arbennig fel y ddau yn cyfarfod a Christ ar y ffordd i Emaus ac Ioan yn sôn am y groes fel gogoniant sy'n arwain i'r Atgyfodiad. Tynnodd sylw at y ffaith fod Luc ym mhennod 24 yn deud bod y disgyblion yn deud mai "lol" yw credu bod Crist wedi atgyfodi – sy'n dangos bod y disgyblion yn fodau dynol fel ninnau gyda'u hamheuon a'u hangrediniaeth. Yna darllenwyd soned Rhydwen Williams.

Gofynnwyd y cwestiwn a ydyn ni'n credu y gwelwn ein hanwyliaid eto yn y nefoedd. Un ateb a gafwyd oedd ei bod yn haws credu yn yr Ysbryd Glân nag yn yr Atgyfodiad a chytunwyd bod yr Atgyfodiad yn ddirgelwch na ellir ei ddatrys ond ei fod yn dibynnu ar ffydd, a hynny'n gynyddol fwy anodd yn yr oes wyddonol hon. Eglurodd Dr. Rees fod y Testament Newydd yn cymharu'r Atgyfodiad i weithredoedd Duw yn yr Hen Destament, sef y Creu a Moses yn arwain yr Israeliaid allan o gaethiwed, h.y. bod yr Atgyfodiad yn ein harwain allan o dywyllwch i fywyd newydd.

Cytunwyd bod marwolaeth rhywun ifanc yn herio'n cred yn naioni Duw, ond derbyniwyd y ffaith nad yw'r Beibl yn addo bywyd hawdd i ni a bod rhaid derbyn y stormydd a ddaw i'n blino ambell dro. Cwestiwn arall a ofynnwyd oedd sut mae cryfhau ein ffydd ac un ateb oedd trafod y pwnc fel y gwnaethpwyd yn y cyfarfod hwn. Yna darllenwyd englynion am y Pasg gan Dic Jones y bardd.

Darllenodd y Gweinidog hefyd yn Saesneg ddarn o Litwrgi Eglwys Uniongred y Dwyrain. Gofynnwyd y cwestiwn paham fod yna fwy nag un groesbren yng nghroes yr Eglwys Uniongred. Darganfu Dr John Williams yr ateb yn unionsyth ar ei ffôn symudol. Yr ateb yw bod yna dri chroesbren ar draws - yr un uchaf yn cynrychioli'r plac yr arysgrifiwyd arno y geiriau "Brenin y Gogoniant", ac yn ddiweddarch INRI, a'r un gwaelod yn droedfainc. Mewn rhai eglwysi mae'n gam – yn pwyntio i fyny i'r nefoedd ar yr ochr dde lle y croeshoeliwyd y lleidr da ac yn pwyntio i uffern ar yr ochr chwith lle y croeshoeliwyd y lleidr arall.

Gorffennwyd y drafodaeth fuddiol gyda'r datganiad bod yr Atgyfodiad yn symbol o'n ffydd, yn "warant o bethau y gobeithir amdanynt ac yn sicrwydd o bethau na ellir eu gweld." (Heb. 11.1).

***Angen Argyhoeddi*** – Ar nos Lun, 18 Ebrill cafwyd noson arall o dan arweiniad ein gweinidog Dr. D. Ben Rees ar 'Gefndir Gweinidogaeth Iesu Grist a'r dychweledigion a wrandawodd ei neges'. Agorodd y drafodaeth drwy daflu dau gwestiwn atom. Y cwestiwn mawr meddai 'Sut rydych chi'n dod yn Gristion?' Pa mor anodd yw argyhoeddi pobl? Roedd Iesu Grist wedi ei drwytho yn hanes yr hen broffwydi ac o ddarllen rhai o adnodau o Amos, Jeremeia a Deuteronomium gan Meirion, Beryl a Roderick gwelwyd pa mor anodd oedd argyhoeddi y genedl y byddai dyddiau gwell i ddyfod – Amos yn eiriol ar ran ei bobl, Jeremeia yn gweddio am achubiaeth ac addewid am fyd gwell. O ddarllen rhan o Deuteronomium a'r Iddew bellach wedi cael ei rhyddhau o gaethiwed yr Aifft i fyw mewn gwlad dda caiff orchymyn gan Dduw i rannu. Roedd hyn yn sylfaen i well cymdeithas ac i greu cenedl i edrych ar ôl y tlawd a'r amddifad. Hyn oedd pwyslais Iesu Grist, y proffwyd mwyaf oll, sef angen edifarhau, tosturio, gofalu, nid i'r unigolyn yn unig ond i'r genedl gyfan.

Gofynnwyd y cwestiwn:'Beth yw gwir bechod y byd heddiw?' Cafwyd amryw o atebion, trais, diffyg tosturi. gwleidyddiaeth, ffoaduriaid, materion cymdeithasol – yr un yw'r natur ddynol o hyd, a'r ateb cefndir rhyfela di-dostur. Pwyslais yr Iesu oedd i fyw mewn cymdeithas gariadus, gyfiawn ac ewyllysgar. Darllenwyd gan Eryl W. Jones rai adnodau o'r 5ed bennod o Efengyl Luc – Galw'r Disgyblion. Dynion cyffredin oeddent gyda holl gymhlethdodau bywyd, ond 'pechaduriaid nid rhai cyfiawn eilw Duw'. Noson fyddiol oedd hon gyda rhyddid i bawb leisio barn. Y cwestiwn a erys i bob unigolyn: 'Sut rydych chi'n dod yn Gristion?' O ble daeth yr argyhoeddiad. Diolch yn fawr i Dr. Rees am ddarparu ar ein cyfer a'n symbylu i feddwl ymhellach.

***Cydymdeimlo*** – Anfonwn ein cofion annwyl fel Eglwys at y rhai ohonoch sy'n gaeth i'ch cartrefi ar hyd o bryd.

Cydymdeimlwn â Mr. Ted Clement Evans ar golli ei fab yng nghyfraith a meddyliwn am Gaynor a'r ddau fab. Trist oedd clywed am brofedigaeth Miss Hilda Lloyd, Ranhill. Bu farw ei nith Ellyw yn Llanwrin, merch i Ann a'i diweddar ŵr John.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Hilda a Brian Thomas ar farwolaeth eu mab annwyl Alwyn. Bu eu gofal yn fawr ohono a daeth yntau a llawer o lawenydd i'w bywyd. Gweddïwn drostynt oll yn eu hiraeth a'u galar.

## Marwolaeth un o Gymry Lerpwl

**Ar 28ain o Chwefror bu farw Jane Catherine Hughes, Aigburth a Groeslon Uchaf gynt Dinorwig, yn 80 mlwydd oed. Cafodd Jane ei geni a'i magu yn yr ardal ac yr oedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel MC Dinorwig, lle y cafodd ei bedyddio a'i derbyn yn gyflawn aelod o'r eglwys. Yr oedd ei diweddar fam yn un o organyddion y capel. Cafodd Jane ei haddysg yn ysgol bach Dinorwig ac yna yn Ysgol Ramadeg Brynrefail cyn mynd wedyn i'r coleg ym Mangor. Tra yn yr ysgol fe fu iddi gyfarfod ac Emrys Hughes o Gwm y glo a bu i'r ddau briodi rai blynyddoedd wedyn. Fe aeth Jane wedyn yn athrawes i Lerpwl, lle y bu fyw ar hyd y blynyddoedd. Bu yn ei blynyddoedd cynnar yn affaeliad i Aelwyd y De a Parti Drama Maesgrug.**

**Roedd ei hangladd ar ddydd Gwener, 18 o Fawrth yn Amlosgfa Springwood a daeth rhai o Gymry Lerpwl ynghyd gyda'i ffrindiau o Gymru. Yr oedd ei chartref, Groeslon Uchaf, wedi ei werthu tua dwy flynedd yn ôl gan nad oedd iechyd y ddau ohonynt yn bell o fod yn dda ac yn gwaethygu. Bellach y mae Emrys Hughes mewn cartref nyrsio. Nid oedd gobaith iddynt ddod yn ôl i'r hen ardal i ddiweddu ei hoes.**

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Gyda tymor arall bron ar ben rydym wedi mwynhau ychydig o “frethyn cartrer’ o dan ofal Mrs Iola Edwards. Ar Ebrill 4ydd cawsom “Holiad Ysgafan am Gymru” yn canolbwytio ar Gymry Enwog, Adeiladau ac Ardaloedd “cyfarwydd” ac enwau caneuon. Tîm Dafydd a Geraint oedd yr enillwyr gyda’u gwybodaeth eang ac amrywiol – yn enwedig am bêl-droedwyr, ac adeiladau chwaraeon! Diolchodd Anne Montgomery i Iola am noson hwyliog a chartrefol, gan gyfaddef anwybodaeth truenus amryw ohonom!!

Yn y Cyfarfod Blynyddol ar Ebrill 28, diolchodd ein llywydd, y Barch Glenys Wilkinson i bawb am eu cefnogaeth iddi drwy’r tymor, gyda chyfeiriad arbennig at y swyddogion a’r pwyllgor. Cyfeiriodd at ein tristwch am waeledd difrifol, Mr Merfyn Williams, yr is-lywydd, a marwolaeth aelodau annwyl iawn, Mr Hywel Jones, ac yn gynharach yn y flwyddyn, Mr Bob Jones. Cyfeiriodd at ein trefniadau gwahanol ar gyfer y tymor nesaf. Oherwydd gwaeledd Merfyn, nid oes llywydd etholedig ac er ymdrechion y pwyllgor ni chafwyd un yn ei le. Cytunodd Mrs Mair Rees Jones fel ein llywydd anrhydeddus am oes i ymgymeryd â’r swydd, gyda aelodau a chyn-lywyddion yn gweithredu fel “llywydd y noson” i’n cyfarfodydd. Rhaid inni fel cymdeithas edrych ymlaen i’n dyfodol a bod yn barod i newid ein trefn traddodiadol yn ôl yr amgylchiadau.

Yn ei hadroddiad fel ysgrifennydd, diolch Iola i bawb am gymorth a chefnogaeth yn ei blwyddyn cyntaf yn y swydd. Cytunodd â Glenys, inni gael tymor diddorol ac amrywiol gyda gwestai cyfarwydd a rhai newydd. Edrychai mlaen at y tymor nesaf, gan obeithio cael mwy o rhaglenni cerddorol. Diolchodd am barodwydd yr aelodau i gynorthwyo’r swyddogion a gwahoddwyd syniadau am rhaglenni’r tymor nesaf. Cytunodd yr aelodau eraill i aros yn eu swyddi, ac etholwyd Mrs Llwynwen Fitzpatrick a Mr. Gwyn Jones i’r pwyllgor.

Croeso cynnes i bawb i’r Bore Goffi yn Seion, Sadwrn, Gorffennaf 2 am 10 o’r gloch.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Pleser mawr yn ddiweddar oedd croesawu ein cyfaill y Parchedig D. Glanville Rees, Southport i’n gwasanaethu a daeth ar y bws i Eglwys Bethania. Cludodd Mr. Jim Boyd a Mrs Elin Boyd ef yn ôl i’w gartref yn Radnor Drive. Diolchwn i Dduw am ei weinidogaeth a’i fod wedi pregethu am dros 70 mlynedd, oherwydd ordeiniwyd ef yng Nghymdeithasfa’r De o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 1948 pan oedd ei dad-yng-nghyfraith y Parchedig John Davies yn ysgrifennydd y Sasiwn. Bwriada ddod atom eto ar Sul, 26 Mehefin.

Bu oedfa ym mynwent Thornton ar fore Llun, 16 Mai o dan ofal ein Gweinidog i ddaearu gweddillion Mr. Alun H. Evans, Crosby ym medd y teulu. Llwyddodd y teulu o Lantrisant ddod atom, yn wir yr oeddynt yno ar Sul, 10 Ebrill yn yr Oedfa Goffa. Crynhodd Dr. D. Ben Rees ei gyfraniad fel cyfarwyddwr Gwasg y Brython. Da oedd gweld y Parchg. Margaret Quayle yn bresennol yn yr Oedfa Goffa, hi ag Alun yn gyfoeswyr yn Crosby. Dim ond dau ddiwrnod oedd rhyngddynt o ran oedran.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Braf oedd cael dau o ddoniau grymus Ynys Môn i’n pulpud yn ddiweddar, y Parchg. Gerallt Lloyd Evans, Cerrigceinwen, Bodorgan ar Sul, 17 Ebrill a’r Athro Euros Wyn Jones, Rhosymeirch ar y Sul canlynol. Gwnaeth ef ymdrech ryfeddol i fod yn ein plith gan iddo deithio i Seland Newydd i briodas ei fab. Cyrhaeddodd yn ôl i Lundain ar Nos Wener, teithiodd yn y trên ar fore Sadwrn i Fôn, a dreifiodd ei gar i Penny Lane a Laird Street y diwrnod trannoeth gan roddi inni neges gofiadwy. Deil nifer o’n haelodau yn gaeth i’w cartrefi, ac un o’r ffyddlonaf yw Miss Megan Roberts. Da gweld colofnydd y golofn hon wedi dod allan o’r ysbyty, sef Mrs Margaret Jones, New Brighton. Daeth ar ei hunion i’r Capel, ac yna teithiodd gyda’r mab i Llydaw lle y mae ei brawd, Wmffra Hunphreyd yn byw. Ceidw ef gysylltiad agos a’i deulu a’i ffrindiau ar y Glannau a Chymru ac nid oes pall ar ei gof anhygoel am gefn gwlad Ceredigion gan iddo fyw am gyfnod yn Nhregaron pan ar staff Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.



**CYSTADLEUAETH GOLFF**
**CYMRY LERPWL 2016**



14eg MEDI 2016

Cwrs golff Woolton Golf, Speke Road, Lerpwl L25 7TZ

Mae’n agored i ferched a dynion

Cost £35 yr unigolyn neu £150 am bedwar yn cynnwys cinio ysgafn, gêm 18 twll,

**SWPER A GWOBRAU ANHYGOEL**



am fwy o fanylion cysylltwch â Dr. John Willams ar doctorjohnwilliams@btinternet.com

**Mae’r Eisteddfod ar ei ffordd**

**Sir y Fflint 2016**

**Mai 30 - Mehefin 4**

# YMA GWELAF EBENEZER …



*Arfon Jones a Dr. Dafydd G. Davies*

Un o fy arferion dyddiol cyson ar hyd y blynyddoedd oedd prynu copi o'r *Western Mail*. Ond pan ddechreuodd cyfnod o iselder ysbryd afael yn dyn ynof nôl yn nhymor yr Hydref llynedd, doeddwn i ddim yn awyddus i adael y tŷ hyd yn oed heb sôn am brynu copi yn y siop leol yma yn Yr Eglwys Newydd.

Erbyn hyn rwy'n prynu copi ddydd Sadwrn sy'n costio £1.60 ond hefyd y cylchgrawn sy'n cynnwys manylion am raglenni'r wythnos sydd i ddod ar y teledu, radio ac ati.

Er rydw i'n dal i gadw mewn cysylltiad â'r *WM* trwy garedigrwydd llyfrgell Yr Eglwys Newydd a chlwb hamdden Gwesty Pentref Coryton lle rydw i nôl yn nofio bob yn ail ddiwrnod.

Cofiaf y diweddar Barch. Eifion Wynne, Dowlais, mewn cyfarfod o Gwrdd Dosbarth Cwm Rhondda, yng nghapel Blaenycwm Tynewydd, yn holi cwestiwn, 'I ba dudalen yn y papur dyddiol fyddwch chi'n troi ato yn gyntaf?'

Rhaid cydnabod taw troi at yr 'obits' fydda i neu efallai ar fore Llun cyn Yr Awr Hapus (Dysgwyr) yng Ngwesty Pentref, troi at y tudalennau chwaraeon.

Cofiaf un o frawddegau Taid, y Parch J. Clement Davies, Castellnewydd Emlyn, nôl yn y 70au. 'Gad i fi gael golwg ar y WM fy machgen gwyn i er mwyn cael gweld pwy sydd wedi ein gadael!'

Sylwaf fel mae lluniau lliw y *WM* wedi gwella ar hyd y blynyddoedd. Yn achlysurol gwelir llun o ambell i gapel neu eglwys – o'r tu allan fel arfer ond yn anaml llun o'r tu mewn. Megis fel digwyddodd yn ddiweddar ar fore Llun, 25 Ebrill. 2016

Llun 'mewnol' o gapel Ebenezer Aberafan. Llun o gynulleidfa lawr llawr yn seddi blaen y capel – oedfa a gynhaliwyd yno ddydd Sul 24 Ebrill siwr o fod gan Eglwysi'r dref gydai'i gilydd i gefnogi gweithwyr dur yr ardal a'u teuluoedd.

Roedd yna weinidog yn y pulpud, byrddau rhifau emynau y tu ôl iddo ar y naill ochr, dwy gadair ar naill ochr sgrîn fawr wen ac arni'r pennill, 'Have we trials and temptations? Doedd dim bwrdd cymun ond allweddellau ar ochr dde y gweinidog. Wnes i ddim nodi os oedd y gynulleidfa ar eu traed yn canu emyn neu oedden nhw ar eu heistedd...

Ond yr hyn a'm trawodd ar unwaith wrth syllu ar y llun oedd edrych ar y ddau fwrdd emynau, mor agos i'w gilydd ac felly dau gyfle i weld y rhifau sef 170, 909, 305 a 955. Meddyliais tybed ai emynau Saesneg oedd 909 a 955 a 170 a 305 yn rhai Cymraeg. Gwelir 'What a friend we have in Jesus...' yng nghefn *Caneuon Ffydd* ond rhif 906 yw e!


Rydw i newydd anfon neges e-bost i'r Parch. Peter Harries Davies, gweinidog Ebenezer, yn ei holi ym mha lyfr emynau y gwelir y pedwar emyn uchod.

Wedi derbyn ymateb cyflym gan Peter, es nôl i'r llyfrgell a chael golwg arall ar y llun. Mae'r gynulleidfa ar ei thraed a gwelir bron 30 o addolwyr yn y rhesi blaen lawr llawr. Parch. Rick Hayes sy'n sefyll yn y pulpud sef Caplan Tata, ac ef oedd wedi awgrymu cynnal y fath oedfa. Cafwyd cyfraniadau gan weinidogion lleol, Côr Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, Côr Dynion Maesteg, CAP (Cristnogion yn erbyn Tlodi) ac anerchiad gan Gaplan Tata.

A'r pedwar rhif emyn uchod – o *Ganeuon Ffydd* ac fe'u canwyd yn Ebenezer yn oedfa'r bore ar 24 Ebrill.

Cofiaf beth oedd emyn 305 yn *Llawlyfr Moliant Newydd* a chofiaf bod 170 yn emyn cynhaeaf. Ond does dim syniad gen i beth yw 170 a 305 yn *Caneuon Ffydd*. Er ein bod bellach yn defnyddio *Caneuon Ffydd* ers dechrau'r ganrif, ychydig iawn o'r rhifau sy'n aros yn fy mhen – mor wahanol i ddyddiau *Llawlyfr Moliant Newydd*.

Bydd y rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â fy nhad, Parch. Dr Dafydd G Davies, sydd erbyn hyn yn tynnu am ei ben-blwydd rhif 94, yn gwybod fod ganddo gof aruthrol ac yn cofio am ddigwyddiadau nôl yn y 30au fel tasen nhw wedi digwydd ddoe! Mae e o hyd yn



*Gwilym Dafydd a'i dad Dr. D. G. Davies ac Aled Eurig*

cofio beth yw cynnwys rhifau emynau o'r hen *Lawlyfr Moliant* – ac ymddangosodd hwnnw yn 1915!

Rwy'n cofio cyfarfodydd blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru yng Ngharmel Pontlliw a'r diweddar Barch. Wynham Rees, Tycroes, a fi yn sefyll mewn maes parcio rhwng dau gyfarfod ac yn edrych ar rifau ceir. Roeddwn i'n gallu dyfynnu llinell gyntaf sawl 'emyn' ond ces i'r argraff bod Wyndham yn gwybod am rif pob emyn yn y *Llawlyfr Moliant Newydd*!

Ond mae'r oes wedi newid a does dim angen bwrdd emynau mewn ambell i oedfa. Mae defnydd o bwynt pŵer a'r sgrîn fawr wen yn fwy na digon.

Ar fore Sul y Pasg Bach, 3 Ebrill eleni, es draw i Salem Treganna, (EBC) i wrando ar Eirian fy ngwraig yn gwasanaethu. Roedd y pedwar emyn Pasg a ddewiswyd ganddi o *Ganeuon Ffydd* yn hawdd i'w gweld ar ddau sgrîn wen ac er mai ond ychydig dros ddeugain oedd yno, roedd y canu yn llawer gwell na'r hyn a glywais i yno pan wasanaethais yn mis Gorffennaf llynedd – hynny yw, roedd pawb a'u pennau i fyny yn hytrach na'u claddu mewn llyfrau emynau!

Ond nôl i'r hen drefn oedd hi wythnos yn ddiweddarach yn Eglwys brydferth St. Chad's yn yr Amwythig. Pedwar ugain yno efallai gan gynnwys côr o ryw 8-10, ond fawr o ymdrech i ganu emynau o lyfrau emynau'r Eglwys! Ond hyfrydwch oedd gwrando ar sŵn yr organ bib fawreddog allan o'r golwg ar gefn y galeri.

Doedd dim pregeth fel y cyfryw ond cyflwyniad pwynt pŵer gan Hannah a Malesi o 'Shrewsbury Youth for Christ.' Fel y gwelwch yn y llun daw Malesi o Zambia yn wreiddiol ac mae'n treulio 12 mis gyda'r gwaith pwysig hwn yn yr Amwythig. Efallai bydd hwn o ddiddordeb i Annibynwyr Cymraeg yr Amwythig sy'n cyfarfod ar nos Sul mewn capel URC cyfagos yn Swan Hill...

Yn ôl i'r byd cyfoes a hynnyi ar fore Sul, 17 Ebrill yn Beulah Rhiwbeina (URC). Mae yna gymydog i fi sy'n hyfforddi i fod yn weinidog di-dal gyda'r URC. Soniodd am oedfa olaf Parch. Dr Peter Cruchley-Jones, cyn iddo ddal awyren i ddechrau ar ei waith fel cenhadwr gyda CWM yn Singapore. Cerdded draw i Riwbeina ac aros tu allan i Fethel, Eglwys Fethodistaidd, Gymraeg. Roedd hi bron yn 10.15 a ches air bach gyda un o'r blaenoriad tu allan – cadarnhad bod pregethwr Bethel wedi cyrraedd yn ddiogel – Parch. Hugh Matthews, Rhiwbeina. Lawr Heol-y-Deri i Beulah a'r capel yn orlawn. 200 ohonom mae'n siwr, oedfa 90 munud yn cynnwys 35 munud i'r cymun – 8 o ddiaconiaid yn gofalu ar ol yr elfennau. Pob emyn ond un ar y sgrîn fawr wen ac organydd talentog yr eglwys, Dr Alun Jones wedi cyfansoddi dau emyn arbennig ar gyfer yr



***Malesi o Malawi***

achlysur. Welais i erioed emyn o'r blaen, pedwar pennill oedd yn ryw fath o grynodeb o weinidogaeth Peter ac yn ei enwi o leiaf unwaith os nad dwywaith yn un o'r penillion – gwych iawn.

Yna wedi cinio lan yn arbennig i Lynrhedynog, (Ferndale), Rhondda Fach erbyn tri o'r gloch. Dyma'r tro cyntaf i fi arwain oedfa ers Ebeneser Casnewydd (EBC) ar brynhawn Sul, 4 Hydref, 2015.. Oedfa yn enw Tabernacl (A) sy'n cyfarfod ar brynhawn Sul yn Neuadd Côr Meibion Morlais yn hen gapel yr English Congregational yn Heol y Gogledd. Deg ohonom a mentraf ddweud bod y naw arall yr ochr anghywir i'r pedwar ugain oed! Pawb ar eu heistedd i ganu 4 emyn o *Ganeuon Ffydd*. Roedd un person ar goll felly dyma sydd weddill o gapeli Salem Newydd (B), Penuel (EBC) Trerhondda (A) a Nasareth Blaenllechau (B). Yr holl eglwysi hyn wedi cau ers rhai blynyddoedd. Efallai byddaf yn cofio'r oedfa hon am beth amser – y tro cyntaf i fi ddarllen adnodau o feibl.net a baratowyd gan Arfon Jones – Salm 1 a Ioan 14 adnodau 1-6.

Wythnos yn ddiweddarach roeddwn yn Noddfa, Eglwys Undebol Gymraeg, Ynysybwl. Saith ohonom ac Anne Arnold, ysgrifennydd, trysorydd ac organyddes Noddfa wrth yr organ drydan yn y festri! Pedwar emyn o'r *Llawlyfr Moliant Newydd*. Dwy yn canu'r alaw, tair alto a fi'n canu llinell y bas. Er cyn lleied ohonom, roedd hwn yn ganu tri llais swynol, ac hyfryd am newid oedd clywed llinell yr alto mor glir – digwyddiad anarferol y dyddiau hyn, wel, yn fy mhrofiad i, o leiaf.

Wel, dyna mwy na digon am y tro. Ces i brofiadau amrywiol a bendithiol iawn yn ystod mis Ebrill a diolch yn wir amdanynt. Yn ystod bron 6 mis o iselder ysbryd pan es i ddim yn agos i gapel nac eglwys heb law am briodas fy nain yn Eglwys Gatholig Sant Joseff, Y Waun Ddyfal, ar fore Gwener, 30 Hydref, 2015.

Fel medrwn ni i gyd ddarllen ar ddechrau Salm 122 yn beibl.net: 'Ron i wrth fy modd pan ddwedon nhw wrtho i, "Gadewch i ni fynd i deml yr ARGLWYDD." Ie, diolch i Arfon Jones am ei gamp ac i'r Arglwydd ei hun.

***Gwilym Dafydd,***
***Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.***

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL
# RHAGLEN YR HAF 2016

Cyfarfu Pwyllgor y Gymdeithas yn niwedd mis Ebrill i drefnu rhaglen yr haf a dechrau trefnu y rhaglen am y tymor nesaf.

Dyma raglen yr haf am fis Mai a Mehefin

***Mai 26ain – taith i Neuadd Speke.***
***Mehefin 21ain – taith i Langollen***
***Gorffennaf 12fed –***
***bwffe'r haf yng nghlwb Criced Lerpwl, Aigburth***



Manylion pellach oddiwrth Mr. Roderick Owen

*Roderick a Norma Owen yn trefnu rhaglen y Gymdeithas*

# Myfyrdod ar Hillsborough

I'r rhai hynny ohonom sy'n cefnogi'r Elyrch, roedd yn brofiad emosiynol iawn ar 1 Mai i fod yn dyst i'r deyrnged deimladwy i'r 96 a gollwyd yn Hillsborough. Ennyd deimladwy oedd gweld capteiniaid Lerpwl ac Abertawe yn croesi'r cae gyda'i gilydd i gyflwyno torch i Barry Devonside, a gollodd ei fab Christopher yn y trychineb. Cafwyd geiriau cynnes o goffadwriaeth ar ran clwb Abertawe, ac wrth glywed seiniau *"You'll never walk alone"* yn atseinio drwy'r Liberty o gyfeiriad cefnogwyr y ddau dîm fel ei gilydd, roedd rhywun yn cofio pam fod hon yn cael ei galw'n "gêm brydferth".

Bu'r wythnos ddiwethaf yn garreg filltir ddirdynnol eithriadol i deuluoedd Lerpwl. Ar ôl 27 mlynedd o ymgyrchu di-flino i adfer eu henw da ac i ganfod y gwirionedd am yr hyn a ddigwyddodd ar Ebrill 15fed 1989, cafwyd buddugoliaeth o'r diwedd. Daeth y byd i gyd i wybod am flerwch dychrynllyd yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans ar y pryd, ac am y celwyddau di-gywilydd byth oddi ar hynny gan y gwahanol awdurdodau mewn ymdrech ffiaidd i guddio'u methiant eu hunain drwy bardduo'r cefnogwyr. Hyd yn oed wedi i'r rheithgor gyhoeddi ei ddyfarniad gerbron yr ystafell ddisgwylgar yn Warrington ddydd Mawrth diwethaf, roedd elfennau o fewn heddlu De Swydd Efrog yn dal i geisio cyfiawnhau eu methiannau wrth stiwardio teras Leppings Lane ar y prynhawn trist hwnnw yn Sheffield.

Wrth i ninnau ddilyn yr ymgyrch i gael at y gwirionedd gan deuluoedd y rhai a gollwyd, roedd gweld y dyfalbarhad gostyngedig a'r urddas tawel yn destun edmygedd. Wrth feddwl bod yna 96 o bobl na ddaeth erioed adref o'r gêm honno yn erbyn Nottingham Forest, ac o gofio iddyn nhw'u hunain gael eu beio am y sefyllfa, hawdd y gallai'r cymar, y rhiant, y brawd a'r chwaer neu'r plentyn oedd ar ôl fod wedi chwerwi a suro. Ond yr argraff a gawsom ni wrth wrando ar dystiolaeth y mwyafrif ohonyn nhw yn ystod y cwest oedd mai chwilio am y gwirionedd oedd y prif amcan yn hytrach na dial ar eraill. Dagrau pethau yw fod y cyhoeddiad wedi dod yn llawer rhy hwyr i lawer a aeth i'w beddau gydag enw da eu hanwyliaid yn dal dan gwmwl.

Drannoeth y dyfarniad, cyhoeddwyd datganiad ar y cyd gan arweinwyr Eglwysi Ynghyd ar Lannau Merswy. Mae'n dechrau gyda'r geiriau hyn: *"Heddiw rydym wedi cyrraedd carreg filltir arwyddocaol arall yn ystod y daith hon o alar, a'r ymchwil am y gwirionedd, sydd wedi taflu'i gysgod dros fywyd y ddinas hon am ormod o amser. Rydym yn sefyll gyda'n gilydd fel arweinwyr eglwysig i ymrwymo o'r newydd i gefnogi'r rhai sydd wedi eu brifo, i helpu'r rhai sy'n galaru, ac i ddangos cariad Duw a'i dosturi tuag at bawb."*

Fe fu, ac fe fydd eglwysi Lerpwl yn gefn i'r teuluoedd yn bendifaddau, ond yr her yn awr fydd sicrhau nad yw'r ymgyrch i gael cyfiawnder yn esgor ar gasineb a thalu'r pwyth. Rydym i gyd yn awyddus i weld cwrs cyfiawnder yn cael ei weithredu i alw'r rhai euog i gyfrif am eu celwyddau a'u camweddau, ond y sialens sy'n wynebu eglwysi Iesu Grist ar Lannau Merswy yw cynnal pobl i gadw'u hurddas heb ildio i atgasedd.

***Cristnogaeth21***



***Llyr Edwards yn holi'r Golygydd yn wythnos dedfryd cwest Hillsborough***

# CEGIN YR ANGOR

## PIZZA CARTREF



Popty 240°/ 220° ffan / marc nwy 9.

*Cynhwysion:*

300g o flawd cryf
1 x paced 7g o furum sych
1 1/2 llwy de o halen
3 llwy fwrdd o olew yr olewydd
175ml o ddŵr cynnes
175g o bassata
1 paced o gaws mozzarella wedi'i ratio
1 ewyn o arlleg wedi'i falu'n fân
pepperoni
oregano ffres neu sych

Dull:

1. – Cymysgwch y blawd, burum a'r halen mewn powlen. Gwnewch bant yn y canol ac ychwanegwch yr olew a'r dŵr. Cymysgwch nes ei fod wedi cyfuno'n llwyr, ac wedi creu toes gwlyb.

2. – Ysgeintiwch fymryn o flawd ar eich bwrdd a tylinwch y toes am tua 8 munud, nes ei fod yn llyfn ac yn elastig.

3. – Ysgeintiwch y bwrdd a blawd, rholiwch y toes i mewn i siap cylch. Rhowch y toes ar dun pobi sydd wedi ei iro ag olew.

4. – Rhowch haenen o bassata ar y toes, yna'r mozzarella, garlleg, pepperoni ac oregano.

5. – Pobwch y pizza am 8-10 munud.

6. – Gweinwch yn syth gyda salad.

—o—

# Pigion y mis o Ddyffryn Camwy

Cawsom fis llawen yn llawn bwrlwm mawr wrth ymuno mewn dathliadau arbennig.

Rhaid canmol yr ymdrech barhaol a wnaed i gydweithio a chefnogi'r addysg safonol iawn a ddarparwyd yn Ysgol yr Hendre Trelew yn ystod y deg mlynedd diwethaf gan ffrindiau o bell ag agos. Mawr fu'r paratoadau gan gymdeithas glos yr ysgol i sicrhau llwyddiant dathlu Pen blwydd yr ysgol yn ddeg oed. Cynhaliwyd seremoni awyr agored brynhawn Gwener y 15fed o Ebrill. Awyrgylch hynod o wefreiddiol wrth ymyl Capel Moriah. Gweld pawb yn ymuno i gefnogi. Ni allwn ond peidio meddwl pa mor bwysig i'r hen Gymry y buasai clywed y plant yn canu 'Cofia Bob Amser' o dan arweiniad Catrin Morris. Cynhaliwyd Swper Mawreddog yn Neuadd Dewi Sant Trelew ar y nos Sadwrn canlynol. Un o uchafbwyntiau'r dathliadau yw gweld yr arddangosfa yng nghyntedd yr ysgol, lle gwelir cyfarchion oddi wrth enwogion a ffrindiau di ben draw ar draws y byd. Pob dymuniad da am ddyfodol disglair a bydded i'r addysg barhau, gan feddwl ar yr un pryd am Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol y Cwm Trevelin.

Enillodd y diweddar Archdderwydd a'r Prifardd Dic Jones gadair y Wladfa yn 1965 a gynhaliwyd yn Nhrelew. Bu'n ddymuniad ganddo sicrhau fod cadair y Canmlwyddiant yn dychwelyd i'r Wladfa. Er i nifer ohonom geisio cynorthwyo'r teulu i wireddu breuddwyd y Prifardd ni chawsom lawer o oleuni ar y mater. Felly gyda balchder unwaith yn rhagor dangoswn ein diolch a chydnabyddiaeth i deulu a chwmni ceir Tom Gravelle Cydweli ac i Emyr Penlan, cynhyrchydd o Gwmni Tinopolis am lwyddo i gludo'r gadair o'r Hendre yn ôl i'r Wladfa. Croesawyd Sian Jones gweddw Dic ac Emyr Penlan a Jo'r dyn camra yma. O dan arweiniad Llywydd Gorsedd y Wladfa sef Ivonne Owen a chyd aelodau'r Orsedd fe gynhaliwyd Seremoni cyflwyno'r gadair yn Amgueddfa'r Gaiman fore Sadwrn diwethaf. Cawsom ddatganiad ar y delyn gan Helen Green a Sylvia ei mham yn canu. Darlleniad emosiynol iawn o gerdd fuddugol Eisteddfod y Wladfa 1965 gan Gladys Thomas. Cyflwynwyd englyn a ddarllenwyd gan Esyllt Nest Roberts o waith Idris Reynolds, cyfaill mynwesol i Dic Jones. Diolch yn arbennig iawn i Fabio Gonzalez, Luned Gonzalez ac i Edith Macdonald am gymryd rhan. Caiff y gadair le teilwng yn Amgueddfa yn Gaiman. Braf oedd ymgynnull gyda'n gilydd ar fferm Ivonne Owen lle cawsom asado blasus i ddilyn y seremoni a saif yn fy nghof am byth.

Cafwyd cyfle brynhawn Iau i gynnal seremoni anffurfiol yn Ysgol Gymraeg y Gaiman i ddiolch i Emyr Penlan o Gwmni Tinopolis am y cyfraniad ariannol a wnaethant i'r ysgolion sef Ysgol Gymraeg y Gaiman, Ysgol yr Hendre Trelew ac Ysgol y Cwm Trevelin yn dilyn darlledu rhaglenni 'Heno' y llynedd. Eisoes roedd yr arian wedi cyrraedd ers mis Mawrth.

Ers dechrau'r tymor rydym yn falch i fod wedi medru croesawu ymwelwyr lu. Bu dosbarthiadau siaradwyr Dolavon a siaradwyr Trelew yn rhannu profiadau gyda Rhys Llewelyn a Wayne Morris. Bu'r ddau yma dros wyliau'r Pasg yn gwneud gwaith ymchwil ac felly yn cyfweld a chasglu gwybodaeth gwerthfawr. Roedd nifer o'r siaradwyr yn cofio cael gwersi gyda Rhys tra'n athro yn y Dyffryn. Cafwyd amser diddorol hefyd yng nghwmni'r Athro Iwan Wyn Rees, darlithydd yn Adran y Gymraeg Prifysgol Caerdydd. Ymhlith nifer helaeth cafodd Nivia Owen, Dolavon gyfweliad hynod ddiddorol, a theimlodd yn hapus i rannu ei phrofiadau wrth ateb cwestiynau bachog iawn ganddo.

Mae amser yn lled brysur ond rhaid peidio cwyno oherwydd rwy'n wirioneddol gredu ein bod yma i hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith Gymraeg. Llwyddwyd i wneud hynny eto eleni wrth ymuno gyda Chapel Bethel ac Ysgol Gymraeg y Gaiman ar y Sadwrn a'r Sul yn y Ffair Amaethyddol . Mae enw Menter Patagonia yn amlwg yn y Ffair ers blynyddoedd bellach a chredaf ei fod yn ffordd dda o hysbysu'r cyhoedd am y gwahanol ddosbarthiadau Cymraeg. Braint oedd cael ymuno fore Sadwrn gyda Ysgol Gymraeg Gaiman yn seremoni agoriadol y Ffair Amaethyddol.

Rhaid datgan hefyd fy malchder o gael bod ymhlith y gynulleidfa luosog i diolch am y cynhaeaf yng nghapel Bethel Gaiman ar y 3ydd o Ebrill. Gwelwyd fod pawb yn hynod falch o groesawu Tegid a Nant Roberts i'n plith a hwythau eisoes wedi cymryd rhan yng ngwasanaeth arall a gynhaliwyd ym Mryn Gwyn. Braf oedd clywed cynifer o eitemau safonol a chymaint o deluoedd ifanc yn cefnogi'r Gymraeg yn y Dyffryn. Gwledd hyfryd i ddilyn yr oedfa gan ferched y gegin. Diolch i bawb.

Cynhaliwyd ail Gymanfa Ganu Cymdeithas Dewi Sant ddoe yn Eglwys San David Maesteg. Dyma'r tro cyntaf i mi fynychu'r adeilad er ein bod wedi ymweld yn ystod ein wythnos gyntaf yma ym mis Mawrth 2014 yng nghwmni Luned Gonzalez. Cawsom Gymanfa Ganu urddasol a neges bwrpasol gan Carlos Rwiz.

Diolch am gael y cyfle unwaith eto i gydweithio eleni yn yr ysgolion lleol sef Ysgol yr Hendre ac Ysgol Gymraeg y Gaiman. Bu'n amser prysur ar ddechrau'r tymor a chynhaliwyd nosweithiau staff a rhieni buddiol yn y ddau sefydliad. Yn ogystal cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol a bu'r gweithgareddau i hybu Addysg Gorfforol fel rhan o ddiwrnod Rhyngwladol yn llwyddiant mawr yn Ysgol Gymraeg y Gaiman.

Hoffwn orffen trwy ddymuno'n dda i Judith Jones o Ysgol y Gymraeg Gaiman sydd ar fin ffarwelio a'r Wladfa am ddwy flynedd. Mae Judith yn teithio mewn wythnos i Gymru a bydd yn gweithio yno fel Swyddog Cymorth Cristnogol. Cawsom noson arbennig yng Ngwalia Lan i ddymuno'n dda ac i gyflwyno anrheg iddi. Pob dymuniad da Judith.

Fy mwriad yn yr adroddiad nesaf o Ddyffryn Camwy fydd rhoi darlun o waith y dosbarthiadau Cymraeg a gynhelir yn ddyddiol gan wahanol diwtoriaid. Edrychaf ymlaen i gofnodi cynnydd eto yn y maes yma.

Diolch o galon am eich cefnogaeth cyson.

*Eluned Jones,*
*Swyddog Datblygu'r Gymraeg,*
*Cynllun yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia*



***Ysgol yr Hendre Trelew yn dathlu 10 oed***

# ATGOFION

Mae cryn amser wedi gwibio heibio ers i mi alw i mewn i gapel Bethel Heathfield Road (Dydd Gwener Y Groglith Mawrth 29ain 2013). Ers hynny rwyf wedi derbyn copi o'r 'Angor' bob mis ac mae pob copi yn dod ag atgofion yn ôl am fy nyddiau ym myd Cymru'r glannau, ym mysg fy nheulu a ffrindiau teuluol. Atgofion plentyndod i'w rhan helaeth ohonynt.

Fel y mae Hogiau Llandegai yn canu.

*Rwy'n cofio'r dydd, mewn oes di nam,*
*Yn eistedd yn grwt ar lin fy mam.*
*A dyna ddydd diofal iach,*
*Pan oeddwn i ond plentyn bach.*

Rwyf nid yn unig yn darllen y rhifyn cyfredol, rwyf hefyd yn mynd yn ôl ac ail darllen erthyglau. Rwyf newydd ail ddarllen rhifyn Ebrill 2014.

Yn y rhifyn hwnnw cawsom erthygl am 'Cwmorthin' gan y Golygydd Ben Rees. Yn y paragraff olaf fe soniodd am ŵr o'r enw Orthin Thomas. Hwn oedd wncwl Orthin i mi, doedd o ddim yn ewythr, ond mi roedd yn aelod o'r teulu ac fel y dywedir yn yr erthygl fe gafodd ei enwi ar ôl y cwm. Mi roedd yn heddychwr ac rwy'n cofio siarad hefo fo sawl tro am ddau o'i arwyr sef Dietrich Bonhoeffer y Gweinidog Lwtheraidd a diwinydd o'r Almaen ar Esgob Anglicanaidd Trevor Huddleston. Mi roedd hefyd yn wrthwynebydd cydwybodol a gwrthododd ymuno ar fyddin. Dyn bach o ran mesur ei gorfff oedd Orthin, yn wir yr oedd yn medru prynu dillad o faint plentyn, ond mi roedd yn ddyn cryf ei ffydd ai gadernid. Fel blaenor yn Gapel Salem yn Nhrethomas yr wyf yn ei chofio ond hefyd yr oeddwn yn gwybod am ei diddordeb yn mywyd Y Crynwyr.

Yna at 'Cwmorthin' ei hun, lle sydd yn tynnu fy nheimladau mewn dwy ffordd. Y llyn a chymerodd bywydau fy nhad Huw am frawd ifanc Trefor, sydd wedi cael ei anfarwoli mewn englyn gan y bardd R. J. Roberts

*O'r nefoedd i'r dyfroedd du - disgynnodd*
*Dwys gennad i'w gyrchu,*
*A chroesodd at ochr Iesu*
*O'i boen caeth yn faban cu.*

Wedyn y cwm ai holl ramant a hanes bywyd y chwareli a'r chwarelwyr. Nid wyf yn beio'r cwm am y trasiedi a daeth i ran y teulu yn wir rwyf wedi mynd yn ôl sawl gwaith. yno.Wrth fynd a phartïon o blant ysgol i aros yn Eryri un o'r teithiau cerdded pob amser oedd o Nantgwynant i Danygrisiau.

Cerdded i fyny o ymyl fferm Llwynyrhwch tuag at Lyn Llagi ac ymlaen i Lyn Yr Adar. Croesi wedyn at Lyn Cwm Corsiog tuag at Lyn Clogwyn Brith, cyn cyrraedd Bwlch Y Rhosydd a Bwlch Cwmorthin. Yn y fan yma roedd y plant yn cael ei synnu wrth weld adfeilion y chwareli am y tro cyntaf.

Ymlaen wedyn, ar y ffordd i lawr, o dan gysgod Moel Ddu, tuag at Gapel Rhosydd fel y gelwir ond Capel Y Gorlan i roi'r enw cywir iddo. Hwn yw'r Capel a welir yn y llun yn erthygl Dr. Ben Rees. Codwyd y capel gan y Methodistiaid yn 1866 ac mae'n arwydd o'r gymuned chwarelyddol a fywiog oedd yn bod yna ar y pryd.Fe ddefnyddiwyd fel man addoli ac fel ysgol bob dydd i blant y chwarelwyr. Maen trist, ond mae'n rhaid dweud fod cyflwr yr adeilad wedi dirywio ers tynnu'r llun a defnyddiwyd gan Dr Ben.



Mae'r adfeilion yn dod i'm cof rhai o'r geiriau sydd mewn englyn gan Ieuan Brydydd Hir i Lys Ifor Hael.

*.............. gwael yw'r gwedd - yn garnau*
*Mewn gwerni mae'n gorwedd;*
*Drain ac ysgall, mall ai medd.*
*Mieri lle bu mawredd.*

Cerdded ymlaen wedyn o dan adfeilion Capel Tiberias, sydd i'w gweld ar y llethrau uwchben, ar hyd ochor Llyn Cwmorthin a heibio adfeilion Tai Llyn. Disgyn i lawr wedyn, yn dilyn Afon Cwmorthin, heibio'r rhaeadr, nes cyrraedd Dolrhedyn. Heibio 'West End' lle bu fy nhaid a nain yn byw yn rhif 4. I lawr y rhiw heibio Capel Moriah Dolrhedyn, sydd bellach yn dŷ, ymlaen o dan bont Rheilffordd Ffestiniog i Danygrisiau lle gwelir Capel Carmel, lle'r oedd Anti Ginni ac Wncwl Esli yn cadw Tŷ Capel, blynyddoedd yn ôl.

Rhyw hanner can llaeth o'r fan yma, ar y ffordd i'r Blaenau, fe welir Capel Bethel, lle bu'r Parch R. Maurice Williams yn gweinyddu (os yr wyf yn cofio yn iawn) cyn iddo symud i Gemaes, Ynys Môn ac yna atom ni i'r Glannau. Mae'r man addoli yma wedi hen gau ac yn awr yn cael ei ddefnyddio fel Stiwdio Recordio i'r Label Sbench.

I grynhoi'r hyn rwyf wedi ceisio ysgrifennu, yr wyf am droi yn ôl at Hogiau Llandegai sydd yn canu yn odidog fel hyn.

*Dŵr yn yr afon rhed yn ddi-baid,*
*Lloer yn disgleirio dros y rhos.*
*Blodau yn amryliw yn y gerddi,*
*Dim ond hen atgofion ddaw i'm gof.*

Diolch iddynt am grynhoi fy atgofion innau fel ymateb i'r arlwy a gawn yn yr *Angor* o fis i fis.

***David Williams***
***(Karslake Road, Lerpwl gynt).***

## Limrig y mis nesaf

*"A ninnau ar drothwy'r Eisteddfod…*
*…………………*
*…………*
*……………*
*………………………*

*Anfoner at*
*benatgarthdrive@talktalk.net*

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2016. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Gorffennaf 2016 –** erbyn bore Mawrth, 31 Mai, 2016 – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Awst/Medi 2016** – erbyn bore Gwener, 1 Gorffennaf, 2016 – y lluniau, adroddiadau etc.

**iii) Rhifyn Hydref 2016 –** erbyn bore Iau, 1 Medi, 2016 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn ar 1 Medi, 2016.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

- **Cyfarfod Blynyddol Yr Angor** – yn Ystafell y Gweinidog, Capel Bethel, Heathfield Road ar bnawn Llun, 18 Gorffennaf 2016 am 2 o'r gloch o dan gadeiryddiaeth Dr. John G. Williams.




*26/04/2016*

*Annwyl Parch. Ddr. D. Ben Rees*

Diolch o galon i Capel Bethel am y rhodd garedig tuag at gynnal gwaith y *Stafell Fyw* yng Nghaerdydd.

Mae'r Ganolfan arloesol hon yn mynd o nerth i nerth gyda dros 600 o bobl ar ein llyfrau ac 84.5% sy'n mynychu'r ganolfan yn rheolaidd (unwaith neu ddwywaith yr wythnos) yn rhydd o'u dibyniaethau neu ymddygiadau niweidiol.

Serch hynny, dyw elusen y *Stafell Fyw* ddim yn un o'r elusennau "poblogaidd" rheini sy'n ennyn cydymdeimlad y cyhoedd; mae'n frwydr barhaus i herio'r stigma a'r rhagfam sy'n dal i fodoli mewn cymdeithas tuag at bobl gyda phroblemau salwch meddwl a dibyniaethau o bob math.

Credaf, serch hynny, y dylai cymunedau ac eglwysi led led Cymru gofleidio a pherchnogi'r maes anodd hwn drwy gefnogi gwaith y *Stafell Fyw* – yn bennaf oherwydd mai cyflwr ysbrydol yw, ac am mai'r prosiect hwn yw'r unig enghraifft o waith Cristnogol yng Nghymru sy'n mynd i'r afael ag un o broblemau cymdeithasol mwyaf ein hoes, dibyniaeth.

Mae eich cefnogaeth ar yr achlysur hwn a'ch parodrwydd i'n helpu yn cynhesu calon dyn.

Gyda'm cariad a'm dymuniadau gorau atoch.

***Wynford Ellis Owen***
***Prif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# EISTEDDFOD A NOSON LAWEN

Ar nos Sadwrn, Ebrill 9ed daeth aelodau y ddau gapel Cymraeg, Noddfa Oaker Avenue a Willow Tree Road, at ei gilydd i gynnal Noson Lawen. Da oedd gweld cymaint wedi troi i fyny i gymeryd rhan. Cawsom wrando ar unawdwyr, grwpiau offerynol, ddau grŵp lleisiol, canu gwerin, deuawdau a chanu emyn – cymysgfa hyfryd a'r gynulleidfa wrth ei bodd yn mwynhau gwrando ar yr hen alawon a'r caneuon Cymreig.

Yn llenyddol, daeth y storïau digri a'r darllen darn digri o lên neu farddoniaeth â llawer o hwyl a chwerthin yn eu sgîl. Mentrodd sawl un ddarllen neu adrodd darn o farddoniaeth â'r gynulleidfa yn hoffi gwrando ar yr hen ffefrynnau gan feirdd adnabyddus Cymru.

Yn gystadleuol, emyn-dôn 'Brussels' gan Eleri Edwards a Lilian Garrett a ddaeth i'r brig. Y gamp oedd ysgrifennu tôn i eiriau'r emyn: 'Dy garu di o Dduw' (Watcyn Wyn) *Caneuon Ffydd* rhif 761 a daeth pedair tôn i law, i gyd yn cael canmoliaeth gan y beirniad Mr Gareth Evans. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr barodrwydd Gareth i feirniadu.

Yn llenyddol, derbyniwyd sawl llinell goll, ond ymdrech frathog Marian Roberts ddaeth i'r brig. Cafwyd chwe chynnig ar y cyfieithu – darn oedd gan Tegla Davies, a heb fod yn hawdd – a dyfarnwyd cyfieithiad Glynn Morris yn fuddugol. Daeth tair telyneg i law ac unwaith eto telyneg Glynn Morris i Mis Ebrill gafodd y safle cyntaf.

Torth Date a Walnut Hafwen Davies a gipiodd y wobr gan y beirniad, Mrs Gwenda Watson. Roeddynt i gyd wyth ohonynt yn edrych yn ddeniadol iawn ar y bwrdd a anodd oedd dewis yr un fwyaf blasus. Y dasg i'r ffotograffwyr oedd tynnu llun o bobl wrth eu gwaith. Cafwyd llond bwrdd o luniau ond, ym marn y beirniad, Dr Bill Roberts, darlun Iestyn Roberts o ddyn yn gwneud gwaith coed, oedd yn haeddu'r wobr gyntaf.

Eleri a Lilian a dderbyniodd gadair Hywel Jones am eu tôn fuddugol. I Lois Murphy y rhoddwyd cwpan arian Gwyn Davies, nid yn unig ei chyfraniad ar y noson ond hefyd am ei ffyddlondeb cyson i'r Eisteddfod neu'r noson lawen erbyn hyn. Mae'n llwyr deilyngu'r anrhydedd a balch oeddem o gyflwyno'r cwpan iddi.

Ni fyddai'r noson wedi bod yn llwyddiant heb arweiniad medrus Elwyn Evans. Diolch Elwyn am lywio'r noson mor rhwydd a mor hwyliog.

Daeth y noson i ben gyda phawb yn cyd-ganu y dôn Sanctus, 'Glân geriwbiaid a seraffiaid' dan arweiniad Mr Trefor Davies sydd wedi bod yn gefnogol iawn inni yng ngweithgareddau'r capeli Cymraeg ar hyd y blynyddoedd. Diolch Trefor. Noson lwyddiannus ac un i'w chofio, yn wir!



***Mrs Lois Murphy yn derbyn Cwpan Goffa David Williams am ei chyfraniadau ardderchog i'r eisteddfod dros gyfnod o flynyddoedd lawer. (Beth fyddai'r Oscars y "Lifetime Achievement Award").***



***Barch. Eleri Edwards a Mrs Lilian Garrett yn derbyn y gadair am gyfansoddi emyn-dôn.***

## *MIS EBRILL*

***(Telyneg fuddugol Glynn Morris.)***

'Rôl stormydd garw'r gaeaf
Yr eira, gwynt a'r glaw,
A hinoedd Mawrth yn angof
Cawodydd ebrill ddaw.


Cânt ddyfrïo'r ddaear noethlwm
I ddeffro blodau fyrdd,
Ac annog tyfiant newydd,
Troi noethni'r coed yn wyrdd.

Cawn weld yr ŵyn yn prancio
A chlywed cân y gôg
A'r adar mân yn tiwnio
Yng ngwyrddlas lwyni'r glog.

Y dydd sydd yn ymestyn
A'r awel sydd yn lefn,
Bydd amser gennym hefyd
I ddod â'r ardd i drefn.

Ond gwir gymwynas Ebrill –
'Dileu y disgwyl hir' –
Trwy wneud i'n sylweddoli
Fod gwanwyn yn y tir.

## Bethan yn llwyddo yn Llundain



***Dr Bethan Rees yn llwyddo i redeg Ras Marathon Llundain a chodi £3,000 o bunnoedd i Uganda***

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn*
*07729 960484*